



13

> superwoman

Dy'n ni ddim yn ofergoelus ynglŷn â'r rhif 13 – ac yn edrych ymlaen at drefnu noson arall o siarad, o fwyta ac o yfed gwin tra'n rhwydweithio ac yn codi arian at achosion da yn y fargen.

PRYD

Dydd Iau, 19 Hydref. 2017 rhwng 5pm a 8.30pm

BLE

Yr Hen Lyfrgell, Yr Aes, Caerdydd. Mae'r adeilad eiconig yma yng nghanol Dinas Caerdydd yn lleoliad i nifer o fusnesau yn ogystal â bod yn gaffi, yn far ac yn gartref i amgueddfa Stori Caerdydd Gydag ystafelloedd ar gael i'w llogi, mae'r Hen Lyfrgell yn safle delfrydol ar gyfer cynnal cyfarfodydd a chynadleddau.

Fe fydd Emma Jenkins, E J Catering ac Amanda Kynaston o Bay Tree Wine yn gyfrifol unwaith eto am y lluniaeth. Gyda'r ddwy yma wrth y llyw, gallwch fod yn sicr o fwyd a gwin o safon

PRIS

£35 – Bydd elw'r noson yn mynd i 2 Wish upon a Star, sy'n elusen a sefydlwyd gan un o'r siaradwyr eleni, Rhian Burke.

5:00-6:00pm

TE A CHOFRESTRU

Bydd cyfle i rwydweithio dros baned a chacen, prynu tocyn raffl (Derbynnir pob cynnig o wobur yn ddiolchgar). Cyfle i archebu gwin ar gyfer y Nadolig (neu win i'ch helpu i oroesi hanner tymor!) o Baytree Wine.

6:00pm

AURIOL MILLER, CYFARWYDDYDD Y SEFYDLIAD MATERION CYMREIG

Y Sefydliad Materion Cymreig yw prif seiat arbenigwyr annibynnol Cymru. Penodwyd Auriol yn gyfarwyddyd ar y Sefydliad yn Hydref 2016 yn dilyn cyfnod fel gyfarwyddyd Cymorth Cymru. Cyn ymuno â Cymorth yn 2013, gweithiodd Auriol ym maes Datblygu Rhyngwladol am bron 20 mlynedd ac mewn 5 o wledydd amrywiol, gan gynnwys gweithio i Oxfam yn Y Swdan ac yn Rwisia, yn y Congo ac yn Burundi.

Pwnc Auriol yw "Menywod mewn bywyd cyhoeddus. Darlun o ddyncwch" Mae cefndir proffesiynol Auriol wedi golygu iddi weithio mewn amrywiol rannau o'r byd, llawer o'r lleoliadau hyn yn llawn heriau. Yn sgil ei phrofiadau, daeth ar draws menywod yn y byd cyhoeddus sy'n parhau i'w hysbrydoli. Gan siarad o brofiad, bydd Auriol yn trafod ystyr dyncwch. Beth yw e – a pham ei fod o bwys?

@auriol_miller

6.20pm

AILEEN RICHARDS, CYFARWYDDYDD ANWEITHREDOL UNDEB RYGBI CYMRU

Aileen yw gyfarwyddyd benywaidd cyntaf Undeb Rygbi Cymru. Roedd yn byw yn yr Unol Daleithiau ac yn Is-lywydd Gweithredol ac yn Is-lywydd Pobol a Threfniadaeth Mars Incorporated, sef y cwmni gofal anifeiliaid a siocled. Ganed Aileen ar gyrion Caerdydd a threuliodd ddeng mlynedd ar hugain yn gweithio i Mars mewn amrwydol swyddi yn y Deyrnas Unedig, yng Ngwlad Belg ac yn yr Unol Daleithiau.

Bellach yn aelod anweithredol ar sawl Bwrdd, dychwelodd Aileen i Lundain er bod Cymru, a rygbi Cymru, yn arbennig, yn eithriadol o bwysig iddi.

Bydd Aileen yn trin ac yn trafod sut mae cyrraedd ac aros ar y brig mewn cwmni byd-eang a chanddo drosiant gwerth biliynau o ddoleri a sut mae'n defnyddio'r gwersi a ddysgwyd ganddi yn ystod ei gyrfa i hybu rygbi yng Nghymru.



6.40PM

RHIAN BURKE, 2 WISH UPON A STAR

Yn dilyn marwolaeth ei mab bychan a'i gŵr, sefydlodd Rhian yr elusen, 2 Wish upon a Star. Elusen sy'n cynnig cefnogaeth hanfodol i rieni mewn galar. Yn enillydd gwobr Just Giving am Ymrywymiad Eithriadol ym mis Tachwedd 2016, cymerodd Rhian ran yn rhaglen y BBC, Mind over Marathon, gan gwblhau Marathon Llundain yn Ebrill eleni.

2 Wish Upon a Star yw elusen ein digwyddiad ni eleni. Bydd Rhian yn trafod yr hyn mae hi â'i helusen wedi ei gyflawni ynghyd â'i chynlluniau i'r dyfodol.

@rhian-burke @2wishupon

6.50PM

CATRIN PASCOE, GOLYGYDD Y WESTERN MAIL

Wedi ei magu yng Nghaerdydd, a'i haddysgu yn Fiji, Cyprus a Sir Benfro, ymunodd Catrin â'r Western Mail fel uwch-ohebydd yn 2001. Daeth yn olygydd newyddion a dringodd ysgol yrfaol Media Wales yn gyflym gan chwarae rhan allweddol yn natblygiad digidol a golygyddol yr ystafell newyddion, gwefan WalesOnline ynghyd â'r papurau newydd. Penodwyd hi'n Olygydd y South Wales Echo yng Ngorffennaf 2014, ac yn Olygydd y Western Mail ym Mawrth 2016.

Yn briod ac yn fam i efeilliaid o ferched 11 oed a Tom sy'n 7, mae Catrin hefyd yn rhedwraig o fri ac wedi cwblhau sawl marathon a heriau eithafol yn y Deyrnas Unedig ac yn yr Alpau.

Bydd Catrin yn trafod ei gwaith fel golygydd papur newydd – a hynny er ei bod yn siaradwr Superwoman cyndyn iawn, ond yn barod i roi cynnig arni!

@CatPascoe

7.10PM

STEVE DIMMICK, DOOPOLL

Mae Steve yn un o sylfaenwyr Doopoll, y wefan a enillodd wobr Tech-Start up Sir Michael Moritz yng ngwobrau ESTnet yn 2016. Fe hefyd sy'n gyfrifol am glwb darllen mwya' poblogaidd y ddinas, CardiffRead. Tan iddo roi'r gorau iddi eleni, roedd Steve yn un o drefnwyr sgysiau Ignite Cardiff, lle roedd yn adnabyddus am ei gyflwyno lliwgar a difyr.

Mae Steve wrth ei fodd yn gweithio gyda phobl sy'n defnyddio technoleg er gwell ac sy'n barod i fentro. Fe'i magwyd ym Mlaenau Gwent a dysgodd Gymraeg fel oedolyn ar ôl cyfarfod â'i wraig, sy'n dod o ogledd Cymru. Mae Steve yn dad balch i dri o blant.

Bydd Steve yn trafod systemau RADAR, treth y pen, Syria a rasmus hwylio.

@thedimmick

7:30-8:30PM

DIODYDD A CANAPÉS



ARCHEBU

Os am archebu lle yn Superwoman 13, llenwch a dychwelwch y ffurflen amgaeedig neu ebostiwch carolinehazell@thompsondarwin.com.

Gallwch dalu drwy yrru siec i:
Superwoman, c/o Thompson Darwin, One Caspian Point, Caspian Way, Cardiff CF10 4DQ
neu talwch yn syth i'n cyfrif banc:
Superwoman
Lloyds Bank, Sort Code 30 67 64
Account Number 16490960

O brofiad, fe fydd y noson yn un boblogaidd, felly sicrhewch eich lle mewn da bryd. Nid yw eich lle wedi ei warantu hyd nes y derbynnir tâl.

Cefnogwyd Superwoman gan:



Hoffwn hefyd ddiolch o galon i gwmni Elevator, sydd eleni eto yn cefnogi Superwoman drwy gynllunio'r daflen hon yn rhad ac am ddim.



Diolch yn arbennig i;



FFURFLEN ARCHEBU

SUPERWOMAN 13 – 19 HYDREF 2017

Enw			
Teitl swydd			
Sefydliad			
Cyfeiriad ebost			
Hoffwn archebu		Ile	
Manylion	Enw	Cwmni	Cyfeiriad ebost